# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD AR BELLTER A GYNHALIWYD DROS MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MERCHER 13 IONAWR 2021 AM 10.30AM

YN BRESENNOL:

Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) - Cadeirydd

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol), N. George (Gwastraff a Diogelu'r Cyhoedd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), S. Morgan (Economi a Menter), L. Phipps (Tai ac Eiddo), J. Ridgewell (Amgylchedd a Seilwaith), E. Stenner (Perfformiad a Gwasanaethau Cwsmeriaid) ac R. Whiting (Dysgu a Chyflawniad).

Ynghyd a:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

C. Campbell (Rheolwr Peirianneg Trafnidiaeth), A. Dallimore (Rheolwr Gwasanaethau Adfywio), C. Davies (Rheolwr Tai'r Sector Preifat), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu), M. Lloyd (Pennaeth Seilwaith), A. Southcombe (Rheolwr Cyllid – Cyllid Corfforaethol), J. Southcombe (Rheolwr Cyllid), M. Woodland (Uwch Gyfrifydd), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol a Swyddog Adran 151), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro), C. Evans (Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor).

Arsylwi:

Cynghorwyr C. Mann a J. Pritchard

### TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod drwy wefan y Cyngor – Cliciwch yma i'w weld. Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai).

### 2. DATGANIAD BUDDIANNAU

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

## 3. CABINET – 9 RHAGFYR 2020

PENDERFYNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2020 wedi'u cymeradwyo a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 4. CABINET ARBENNIG – 16 RHAGFYR 2020

PENDERFYNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2020 wedi'u cymeradwyo a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET - I'W NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a oedd ar yr amserlen rhwng 13 Ionawr 2021 i'r 21 Ionawr 2021. Atgoffwyd yr Aelodau mai dogfen weithredol yw Blaenraglen Waith y Cabinet ac felly'n gallu newid.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod y Blaenraglen Waith yn cael ei nodi. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y dylid nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

## 6. CYNIGION CYLLIDEB DRAFFT AR GYFER 2021/22

Rhoddodd yr adroddiad fanylion cynigion y gyllideb ddrafft i'r Cabinet, ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22, er mwyn caniatáu cyfnod o ymgynghori cyn penderfyniad terfynol gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2021.

Nododd y Cabinet y bydd y cynnydd hwnnw o 3.1% yn y Setliad Cyllid Dros Dro ynghyd â'r cynnydd arfaethedig o 3.9% o ran Treth y Cyngor yn golygu na fydd yn ofynnol nodi unrhyw arbedion newydd er mwyn mantoli'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.
Yn ogystal, nodwyd y bydd y cynigion hefyd yn cynnal y gwasanaethau a ddarperir ar draws y Cyngor, yn ariannu galw cynyddol a phwysau gwasanaeth mewn meysydd allweddol fel Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, yn galluogi buddsoddiadau newydd sy'n canolbwyntio ar y gymuned mewn meysydd fel Gofal Caerffili a'r Gronfa Grymuso Cymunedol arfaethedig, darparu'r capasiti a'r gwydnwch sydd eu hangen i yrru Rhaglen Drawsnewid Tîm Caerffili a buddsoddiadau "Llywio Lle" ymlaen a mynd i'r afael â materion etifeddiaeth mewn perthynas â diffygion incwm o fewn nifer o wasanaethau.

Nododd y Cabinet fod y Cyngor ar daith o ran adfer, gwella a thrawsnewid a bydd y cynigion a nodir yn yr adroddiad yn darparu llwyfan cadarn i symud ymlaen gyda'r cynlluniau uchelgeisiol.

Nododd yr Aelodau nad yw'r Setliad Ariannol yn cwmpasu goblygiadau ariannol y pandemig coronafeirws parhaus, o ran y costau ychwanegol sy'n parhau i gael eu hysgwyddo a cholledion incwm, ill dau. Bydd y rhain yn parhau i gael eu hariannu drwy grantiau a bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu'n agos wrth i'r flwyddyn ariannol newydd nesáu.

Er bod y cynnydd o 3.1% yn y Setliad Ariannol i'w groesawu, mae'r sefyllfa ariannu ar gyfer Llywodraeth Leol yn y dyfodol yn debygol o fod yn heriol oherwydd effaith ariannol ddigynsail Covid-19 a'r pwysau a fydd hynny'n rhoi ar arian cyhoeddus am flynyddoedd i ddod.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod adran 5.4 o'r adroddiad yn rhoi manylion y rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnod pedair blynedd rhwng 2022/23 a 2025/26 a bydd angen arbedion sylweddol wrth symud ymlaen. Sicrhawyd yr Aelodau bod y Cyngor mewn sefyllfa dda i

ddelio â'r her hon a'r Rhaglen Drawsnewid fydd y sbardun allweddol i sicrhau bod gwydnwch ariannol yn cael ei gynnal yn y dyfodol.

Diolchodd y Cabinet i'r swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad yn drylwyr a gofynnwyd am ragor o wybodaeth am gymorth i breswylwyr sy'n agored i niwed. Sicrhawyd y Cabinet bod 16,800 o aelwydydd yn cael cymorth drwy Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor, gyda hyd at 63% yn cael rhyddhad o 100%.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch Bandiau Eiddo a nodwyd bod 79,754 o eiddo yn y Fwrdeistref rhwng Band A ac C, canran o 76.02%. Wrth gymharu costau Band D, nodwyd bod Caerffili, o'i gymharu ag Awdurdod cyfagos, yn codi £527 yn is na Blaenau Gwent.

Wrth drafod buddsoddiadau sy'n canolbwyntio ar y Gymuned, y budd cymunedol mwyaf sy'n hollbwysig, ac yn dilyn trafodaeth, nodwyd y byddai meini prawf a phroses yn cael eu dyfeisio a'u cyflwyno i'r Cabinet cyn eu gweithredu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Trwy bleidlais electronig cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:-

i) Cymeradwyo cynigion cyllideb ddrafft 2021/22;

ii) I gefnogi'r cynnig i gynyddu Treth y Cyngor gan 3.9% ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 er mwyn sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei chyflawni (gan osod Band D Treth y Cyngor ar £1,230.57);

iii) I gymeradwyo'r cynnig i benodi pedwar rheolwr prosiect cyfnod penodol am gyfnod cychwynnol o 2 flynedd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno Rhaglen Drawsnewid y Cyngor a'r agenda "Llywio Lle", gyda chyfanswm y gost o £368 mil yn cael ei hariannu o gronfa wrth gefn o £1.8m a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cyngor i gefnogi cyflwyno'r CATC;

iv) Bod cynigion y gyllideb ddrafft bellach yn destun ymgynghoriad cyn cyflwyno cynigion cyllideb terfynol 2021/22 i'r Cabinet/Cyngor ym mis Chwefror 2021;

v) I nodi'r gofyniad arbedion posibl dangosol o £20.7m ar gyfer y cyfnod pedair blynedd 2022/23 i 2025/26.

## 7. DYFARNIAD CYFLOG ATHRAWON 2020-21

Rhoddodd yr adroddiad fanylion a goblygiadau dilynol i'r Cabinet mewn perthynas â dyfarniad cyflog Athrawon Medi 2020, amlinellodd fanylion diffyg cyllid a darparodd gynnig ynghylch sut y gellid ariannu hyn yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Darparodd yr adroddiad fanylion y dyfarniad cyflog athrawon ar gyfer Medi 2020 a'r goblygiadau ariannol dilynol i'r Awdurdod os yw'r strategaeth am gefnogi'n llawn y cynnydd mewn cyllid, at y diben hwn, i'n hysgolion. Nodwyd nad oedd grant yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru yn ariannu'r gost hon yn llawn (tua 50%).

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Trwy gadarnhad llafar a thrwy ddefnydd Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:-

i) Cytuno ar gynnig i ariannu'r diffyg amcangyfrifedig, sy'n gysylltiedig â dyfarniad cyflog athrawon (dysgwyr cyn-16) yn 2020-21, o £286 mil;

ii) Ariennir y diffyg hwn o'r tanwariant rhagamcanol yn ystod y flwyddyn o fewn cyllidebau Cyllid Amrywiol.

## 8. GRŴP GORCHWYL MEYSYDD PARCIO CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Mae'r adroddiad, a ystyriwyd gan y Cyd-bwyllgor Craffu (Pwyllgorau Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Thai ac Adfywio) ar 15 Rhagfyr 2020, yn nodi canfyddiadau Grŵp Gorchwyl Meysydd Parcio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r argymhellion a gefnogwyd gan y Cydbwyllgor Craffu, a gofynwyd i'r Cabinet gymeradwyo'r argymhellion.

Nodwyd bod atodiad 1 yr adroddiad yn amlinellu canfyddiadau ac argymhellion y Cyd-grŵp Gorchwyl Craffu, a sefydlwyd i ystyried meysydd parcio ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Cafodd hyn ei ystyried a'i drafod gan y Cydbwyllgor Craffu a gefnogodd rai o'r argymhellion, gan gynnwys cynnig ar gyfer yr un gyfradd fesul awr ym mhob maes parcio ar draws y fwrdeistref sirol, gydag awgrym mai tariff cychwynnol o 70c yw hwn. Awgrymiadau pellach ar gyfer defnyddio meysydd parcio am ddim yn agos at ysgolion i leihau tagfeydd a chael gwared ar daliadau parcio mewn parciau gwledig, gan eithrio Cwmcarn. Ni chefnogwyd rhai o’r cynigion, a oedd yn cynnwys cynnig llai o drwyddedau parcio i fusnesau lleol a chyflwyno taliadau mewn meysydd parcio a theithio oherwydd pryderon y byddai hyn yn arwain at fwy o barcio mewn ardaloedd preswyl. Gohiriwyd nifer o argymhellion i'w hystyried yn dilyn y Pandemig, a oedd yn cynnwys peidio â gorfodi taliadau ar Ddiwrnod Tyddewi, cyflwyno taliadau mewn meysydd parcio am ddim a gohiriwyd argymhellion pellach ar gyfer adroddiad pellach i'r Pwyllgor Craffu perthnasol ar faterion parthau a pharcio preswyl.

Diolchodd y Cabinet i'r swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Gofynnodd Aelod o'r Cabinet am sicrwydd y bydd gan Swyddogion Gorfodi y pwerau priodol i ganiatáu i rieni ddefnyddio'r meysydd parcio i leihau tagfeydd a cheisio rhagor o wybodaeth am gyllid ar gyfer y peiriannau talu ac arddangos newydd. Sicrhaodd swyddogion yr Aelodau y bydd Swyddogion yn cael cyfarwyddyd i beidio â gorfodi cosbau parcio i rieni mewn rhai meysydd parcio ar adegau ysgol. Yn ogystal, nodwyd y bydd diffyg o ganlyniad i'r taliadau parcio is a pharcio am ddim mewn rhai parciau gwledig, sydd wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb. Nodwyd hefyd bod cyllid grant o £172 mil wedi'i sicrhau i helpu i ariannu peiriannau talu ac arddangos newydd, ond eglurodd Swyddogion y bydd angen cyllid ychwanegol o £178 mil o Gronfeydd Cyfalaf a Glustnodwyd er mwyn ariannu'r peiriannau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth a chyda chynnwys argymhelliad ychwanegol yn *vii)*, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Trwy bleidlais electronig cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a geir yn Adroddiad y Swyddogion, a gan gynnwys yr argymhelliad ychwanegol yn *vii):* i wneud y canlynol :-

i) Safoni'r tariffau fesul awr presennol, mewn meysydd parcio talu ac arddangos dan berchnogaeth priffyrdd sydd ar gael i’r cyhoedd, ar draws y fwrdeistref sirol ar gyfer parcio tymor hir a thymor byr yn y drefn honno. Awgrymir bod taliadau'n cael eu pennu ar lefel is ar hyn o bryd;

ii) Dylid dileu taliadau parcio yn y 5 parc gwledig y cytunwyd arnynt yn 2014 er mwyn cydnabod y manteision iechyd sylweddol i breswylwyr;

iii) Os oes meysydd parcio yn agos at ysgolion, sy'n cael problemau parcio yn ystod amseroedd gollwng a chasglu, rhoddir disgresiwn i Swyddogion ganiatáu consesiwn parcio am ddim i rieni/gofalyddion am gyfnod cyfyngedig ac mewn ymgynghoriad ag aelodau wardiau lleol;

iv) Caniateir i'r dull presennol o ddefnyddio meysydd parcio ar gyfer masnachu a digwyddiadau barhau a chaniateir i Swyddogion barhau i ddefnyddio disgresiwn mewn perthynas â cheisiadau sydd â budd cymunedol;

v) Dylid archwilio cyfleoedd i wella teledu cylch cyfyng sy'n bodoli eisoes lle mae arian grant neu arian cyfatebol ar gael;

vi) Dylid cytuno ar raglen i uwchraddio peiriannau talu ac arddangos ar draws y fwrdeistref sirol, a'i gweithredu.

vii) *Mae'r gofyniad cyllid gweddilliol o £178 mil i uwchraddio peiriannau talu ac arddangos yn cael ei ariannu o Gronfeydd Cyfalaf a Glustnodwyd.*

## 9. POLISI GWERTHU GORFODOL

Roedd yr adroddiad, a ystyriwyd gan y Cyd-bwyllgor Craffu (Pwyllgorau Craffu Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Thai ac Adfywio) ar 15fed Rhagfyr 2020, yn amlinellu cynnig i nodi fframwaith er mwyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddefnyddio pwerau statudol o dan y Weithdrefn Gwerthu Gorfodol gyda'r bwriad o dargedu eiddo gwag problemus hirdymor, a dod â'r eiddo hyn yn ôl i ddefnydd, lle y bo'n bosibl.

Nodwyd y gall eiddo gwag hirdymor gael effaith negyddol ar yr amwynder gweledol yn y gymdogaeth gyfagos ac achosi niwsans i feddianwyr cyfagos. Felly, bydd Polisi Gwerthu Gorfodol yn anelu at ryddhau adnoddau'r sector cyhoeddus, adennill dyledion sy'n ddyledus i'r Awdurdod, gwella cymunedau lleol a chynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad a thynnodd sylw at rai o sylwadau'r Pwyllgor Craffu, a nodwyd yn yr adroddiad eglurhaol ac a oedd yn cynnwys pryderon y byddai'r polisi arfaethedig hwn dim ond yn berthnasol i eiddo gwag, ac os caiff elfennau o'r meini prawf eu pwysoli er enghraifft lle mae dyledion, neu os yw eiddo gwag yn sbarduno'r weithdrefn gwerthu gorfodol, y darparwyd sicrwydd ar ei gyfer yn y cyfarfod, a rhoddodd fanylion am yr ymatebion i'r ymholiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad eglurhaol.

Diolchodd y Cabinet i'r swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Codwyd ymholiadau mewn perthynas â'r Polisi a Gorfodi a nodwyd, yn dilyn arolygiad o'r eiddo a'r dyledion a gronnwyd dros £500, y gellir cynnig cymorth i berchnogion i gael grantiau neu fenthyciadau er mwyn sicrhau bod yr eiddo'n cael ei ddefnyddio unwaith eto. Fodd bynnag, os bydd y perchennog yn talu'r dyledion, ni ellir defnyddio'r Polisi mwyach.

Cododd Aelod ymholiadau ynghylch y meini prawf arolygu, y manylwyd arnynt o fewn pwynt 5.7 o'r adroddiad a nododd fod y wybodaeth yn dod i law o wybodaeth Flynyddol Treth y Cyngor, cynhelir arolygiadau, a bod asesiadau risg yn cael eu cynnal, ynghyd ag ystyried cwynion a chymdogion ac ati, yna caiff eiddo sy'n cyflwyno'r risg uchaf ei dargedu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cymeradwywyd argymhellion yr adroddiad. Trwy gadarnhad llafar a thrwy ddefnydd Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:-

i) Cytuno i fabwysiadu polisi gwerthu gorfodol fel offeryn gorfodaeth at ddefnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili;

ii) Mabwysiadu ffigwr o £500 fel lefel y ddyled lle gellir gweithredu'r polisi hwn.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.29am.

Wedi'i gymeradwyo a'i llofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2021.

______________________

CADEIRYDD